# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cabinet | Dyddiad: | 8 Ebrill 2013 |
| | | Deialu Union: | 01824706141 |
| | | e-bost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **CABINET** sydd i'w gynnal am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 16 EBRILL 2013 yn YSTAFELL PWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RUTHUN** ac ryw'n amgáu'r adroddiad canlynol.

**Rhif Agenda** **Eitem**

**5** **ADRODDIAD DIWEDDARIAD CYLLID** (Tudalennau 3 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau sy'n egluro'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio a Democrataidd

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**Adroddiad i'r:** **CABINET**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **16 Ebrill 2013**

**Aelod Cabinet Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Swyddog Arweiniol:** **Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

**1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y'u cytunwyd ar gyfer 2012/13, ar ddiwedd Mawrth 2013. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ar y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Diweddaru'r aelodau ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau'n cydnabod y cynnydd o ran y strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

**4 Manylion am yr Adroddiad**

Cyflwynir rhagolygon diweddaraf y gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos tanwariant ar draws cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol o £994k (£1.1m y mis diwethaf), sy'n cynrychioli amrywiad o 0.86% ar draws y gyllideb net gyfan. Fodd bynnag, o hyn, mae £849k wedi ei ymrwymo i ariannu gwariant yn gynnar yn 2013/14 neu wedi cael ei gynnig ar gyfer ei ddefnyddio gan wasanaethau y flwyddyn nesaf, sy'n golygu fod y tanwariant sydd ar gael, o bosibl, ddim ond yn £111k. Mae sefyllfa ysgolion yn amcanu symudiad net cadarnhaol ar falansau o £294k (£306k y mis diwethaf) ar gyllidebau dirprwyedig a £176k ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo (£161k y mis diwethaf). Mae'r symudiad ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo yn ymwneud â bod angen llai o wiriadau CRB yn ystod y flwyddyn na gynlluniwyd.

Mae crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond mae hon yn gronfa ar wahân ac nid yw'n rhan o brif gyllideb refeniw'r Cyngor.

Fel soniwyd y mis diwethaf, rhoddodd y cyngor darged arbed net am y flwyddyn o £3.44m yng nghyllideb 2012/13 ac mae 99.3% o'r arbedion wedi eu cyflawni neu wedi eu disodli gan ddod i swm o £3.418m. Roedd y £25k a oedd yn weddill yn ymwneud â'r prosiect rhesymoli argraffwyr ac mae wedi ei ohirio tan y flwyddyn nesaf.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Defnyddir yr adran hon yn yr adroddiad i amlygu unrhyw amrywiadau allweddol o'r gyllideb. Isod mae manylion meysydd lle mae angen esboniad pellach.

**Cyllidebau Gwasanaethau**

Yn y tri adroddiad cyllid diwethaf, mae'r naratif sy'n cefnogi rhagolygon y gwasanaethau wedi cyfeirio at amryw o gynigion i wneud cyfraniadau i'r arian wrth gefn neu i ddwyn arian ymlaen i 2013/14. Mewn nifer o achosion, amseru'r gwariant fu'r broblem, er enghraifft pan fo gweithred wedi cael ei gohirio ond yn digwydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r testun gwasanaeth eisoes wedi dynodi'r rheswm am yr amrywiad ac amlygu cynigion ar gyfer defnyddio'r arian. Bydd yr adroddiad canlyniad terfynol i'r Cyngor ym mis Mehefin yn cymeradwyo'n ffurfiol gwneud trosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn neu falansau (gan gynnwys dwyn arian ymlaen) ond ynghlwm er gwybodaeth yn **Atodiad 2**, mae crynodeb o'r eitemau a drafodwyd mewn adroddiadau blaenorol i'r cabinet.

Caiff manylion amrywiadau nodedig y gwasanaethau eu trafod isod.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes -** adroddir bod yr alldro cyfredol yn gyllideb gytbwys (£22k y mis diwethaf). Bydd unrhyw orwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ariannu o'r Gronfa Cefnogi Pobl, ac o'r herwydd y gyllideb gytbwys. Mae'r gwelliant yn bennaf o ganlyniad i lai o wariant ar y gyllideb Anabledd Corfforol mewn perthynas â lleoliadau preswyl a gofal cartref. Hefyd, mae'r grant Cefnogi Pobl yn debygol o gynhyrchu gwarged yn y flwyddyn o £194k a chynigir dyrannu hyn i gronfa wrth gefn Cefnogi Pobl.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd** – Mae tanwariant Amgylchedd wedi cynyddu £12k i £205k o ganlyniad i sawl cynnydd mewn lefelau incwm a ragwelwyd ac yn rhannol yn cael eu gosod yn erbyn costau a adroddwyd eisoes a oedd yn gysylltiedig â'r newidiadau diweddaraf gyda gwasanaethau ailgylchu.

Mae tanwariant Priffyrdd ac Isadeiledd wedi lleihau gan £16k i £158k, sydd yn cynnwys y newidiadau canlynol:

- Rhagwelir bydd y tywydd oer diweddar yn cael effaith niweidiol ar yr alldro a ragwelir ar gyfer Cynnal yn y Gaeaf. O ganlyniad rhagwelir bydd y gyllideb Cynnal Priffyrdd gyffredinol wedi'i gorwario o £67k.

- Mae dadansoddiad o'r defnydd a wneir o danwydd o fewn systemau Fflyd yn awgrymu bod £100k o gostau'n ychwanegol i gael eu hychwanegu ar ben yr amcangyfrifon blaenorol.
- Fel yr adroddwyd y mis diwethaf, cafwyd dyraniad hwyr o Grant Cefnogi Cludiant Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Ar y pryd y rhagamcan a roddwyd ar gyfer CSDd gan LlC oedd £46k ond mae'r dyraniad terfynol ar gyfer CSDd bellach wedi cael ei gadarnhau fel £34k.
- Hefyd, fel yr amlygwyd y mis diwethaf, mae tanwariant o £25k bellach yn cael ei adrodd ar gyllideb sy'n ymwneud â gwariant offer ar gyfer Datblygiadau Arfordirol Y Rhyl. Gofynnir am i'r arian yma fod ar gael ar gyfer gwariant a gynllunnir yn 2013/14 er mwyn hwyluso agor datblygiad Harbwr Y Foryd.
- Mae'r gwasanaeth hefyd wedi llwyddo gwneud y mwyaf o arian grant yn 2012/13 trwy ddefnyddio adnoddau staff mewnol i ddarparu cynlluniau cludiant a ariennir yn rhanbarthol. Mae hyn wedi gostwng alldro rhagamcanol y prosiect o fewn Traffig a Chludiant gan £42k.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – Rhagwelir bydd y gwasanaeth bellach yn tanwario gan £138k (£35k o dan y mis diwethaf).** Mae'r newid o ganlyniad i arbediad o £83k ar y gyllideb ffioedd mabwysiadu o ganlyniad i bedwar lleoliad yn peidio digwydd cyn pen y flwyddyn a phumed lleoliad yn cael ei wneud trwy Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, lle na chodir ffi. Tan y mis hwn, rhagwelwyd i'r holl leoliadau gael eu gwneud erbyn 31 Mawrth. Bydd y lleoliadau'n digwydd rŵan yn gynnar yn 13/14 felly mae'r £83k yn ymrwymiad y flwyddyn nesaf a chynigir ei gario drosodd i ariannu'r costau. Hefyd, mae £20k wedi cael ei neilltuo drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ymgyrch recriwtio rhieni maeth, ond mae hyn wedi cael ei ohirio. Fodd bynnag, cynigir bod hyn wedi ei glustnodi fel balans i'w gario drosodd oherwydd bydd yr ymgyrch yn cael ei lansio yn 2013/14.

Mae'r pwysau a adroddir o fewn y gyllideb **Tai a Datblygu Cymunedol** yn berthnasol i ariannu costau colli swyddi o fewn Adfywio.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** - mae'r rhagolygon cyfredol yn danwariant o £27k (£1K y mis diwethaf), fodd bynnag, mae £25k o hyn yn berthnasol i danwariant a ddygwyd ymlaen o 11/12 ar y gyllideb Cyfathrebu a Marchnata, y bwriedir ei ddefnyddio fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth hwnnw. Yn anffodus, bu oedi gyda'r adolygiad ac ni fydd hyn yn cael ei gwblhau tan yn gynnar yn 2013/14. Felly, cynigir y dylid clustnodi'r £25k i ariannu'r adolygiad y flwyddyn nesaf.

**TGCh/ Trawsnewid Busnes** - Yn adroddiad y mis diwethaf, dangosodd y gwasanaeth danwariant o £27k ond roedd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer costau posibl yn gysylltiedig ag archwiliad trwydded meddalwedd gan IBM a oedd wedi dangos yn y lle cyntaf, gynnydd posibl i gostau trwyddedu'r Cyngor. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad erbyn hyn na fydd y costau'n codi o ganlyniad i'r archwiliad. Cynigir clustnodi'r tanwariant o £95k i uwchraddio'r meddalwedd pen desg presennol. Mae hyn yn rhywbeth sydd eisoes wedi'i

nodi fel rhan o Gam 2 Strategaeth TGCh, wedi'i drafod gyda'r UDA a'i ddwyn yn ôl unwaith eto i gyfarfod 18 Ebrill i gael sylwadau pellach.

**Cwsmeriaid a Chefnogi Ysgolion –** mae'r tanwariant wedi lleihau o £26k o'r mis diwethaf i £232k. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i drosglwyddo'r £35k o danwariant ar Ad-drefnu Ysgolion i'r Gronfa Moderneiddio Addysg i helpu ariannu costau ad-drefnu ysgolion yn y dyfodol fel yr amlygwyd yn adroddiad y mis diwethaf. Mae'r gwasanaeth yn flaenorol wedi cynnig fod unrhyw danwariant yn y flwyddyn bresennol yn cael ei glustnodi i ariannu costau ailstrwythuro yn 2013/14.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** – mae newidiadau mân i'r alldro a ragwelir ar gyfer Addysg Arbennig, Cefnogaeth Ymddygiad ac adennill wedi arwain at ostyngiad yn y tanwariant a ragwelwyd o £142k i £126k. Cynnig y gwasanaeth yw i hyn gael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at ariannu amddiffyn yr ysgolion sydd wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla gyllido.

**Ysgolion** – ar ddiwedd mis Mawrth y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion ydi £2.114m (£2.125m fis diwethaf). Mae hyn yn symudiad positif o £294k ar falansau a gariwyd drosodd o 2011/12. Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda'r ddwy ysgol sy'n cael anhawster ariannol. Mae gan y ddwy ysgol gynlluniau adfer ac yn gweithio'n galed tuag at y targedau a bennwyd yn y cynlluniau hyn. Rhagwelir tanwario £176 ar gyllidebau ysgolion na ddirprwywyd, a chredir bydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu i'r amddiffyniad fformwla ysgol yn 13/14. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm costau'r amddiffyniad yn £775k yn 2013/14. Gyda'r cyllid sy'n cael ei adnabod yn yr adroddiad hwn ac o gymhwyso balansau presennol sy'n cael eu dwyn ymlaen, mae dal angen dod o hyd i fwlch posibl o £152k er mwyn darparu lefel lawn o amddiffyniad.

**Cyllidebau Corfforaethol** – Mae'r cyllidebau corfforaethol wedi cael eu pennu gan dybio bod £1.7m yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'r strategaeth ariannu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae'n debygol bydd y cyllidebau a glustnodwyd i gynhyrchu arian yn 2012/13 yn cynhyrchu mwy na'r targed o £1.7m a rhagwelir £75k ar hyn o bryd (£150k y mis diwethaf). Mae'r symudiad yn ymwneud â darpariaeth ychwanegol a wneir i ddiogelu rhag rhwymedigaethau posibl i'r dyfodol yn deillio o'r sefyllfa gydag MMI yr adroddwyd amdani'n flaenorol. Bydd cynnyrch treth y cyngor terfynol a'r arian grant ar gyfer gweinyddu Budd-dal Tai yn uwch na'r rhagolygon pan wneir y ffigyrau'n derfynol dros y wythnosau nesaf.

**Cynllun Cyfalaf**

Mae'r gwariant hyd at ddiwedd mis Mawrth yn £28.1m yn erbyn Cynllun y cytunwyd arno o £31.1m. Bydd croniadau ar gyfer gwariant a ymrwymwyd o £3m yn golygu y cyflawnir y gwariant a ragwelwyd. Mae **Atodiad 3** yn dangos crynodeb o'r cynllun presennol a sut caiff ei ariannu. Yn **Atodiad 4** rhoddir diweddariad ar y prosiectau mawrion o fewn y Cynllun.
Mae'r alldro'r gyllideb ariannu cyfalaf sy'n cael ei ragweld wedi cael ei ddiwygio ers y mis diwethaf i greu cyllideb gytbwys. Mae'r symudiad o £150k

yn cynnig cyfle i ad-dalu dyledion sy'n lleihau nawdd cyfalaf gofynnol y cyngor.

**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**

Mae rhagolygon Cyfrif Refeniw Tai diweddaraf â gwarged mewn blwyddyn o £72k (£12k o ddiffyg a adroddwyd y mis diwethaf). Mae yn cymharu â gwarged a gyllidebwyd o £71k. Mae'r symudiad o'r mis diwethaf o ganlyniad i wariant ar reoli a chynnal a chadw'n llai na'r hyn a ragwelwyd a chynnyrch rhent yn gwella. Rhagwelir i'r balans a gaiff ei gario drosodd fod yn £943k. Mae rhagolygon y Cynllun Cyfalaf Tai wedi gostwng ychydig o'r mis diwethaf fel y bydd gwariant a gynlluniwyd yn cael eu dwyn drosodd i 2013/14. Bydd Ansawdd Safon Tai Cymru yn cael ei gyflawni erbyn diwedd 2013/14 ac mae adolygiad diweddar o'r Cynllun Busnes Stoc Tai yn cadarnhau ei fod yn ariannol hyfyw o hyd.

***Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf:***

| Crynodeb Cyfrif Refeniw Tai 2012/13<br>Mawrth 2012 | |
|---|---|
| **Gwariant** | **£'000** |
| Rheoli a Chynnal a Chadw Tai | 5,740 |
| Taliadau Cyfalaf | 2,654 |
| Cymhorthdal | 3,081 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 79 |
| Gwariant Cyfalaf Ariannu Refeniw | 331 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **11,885** |
| **Incwm** | |
| Rhenti | 11,797 |
| Garejys | 156 |
| Llogau | 4 |
| **Cyfanswm Incwm** | **11,957** |
| **Gwarged (Diffyg) mewn Blwyddyn** | **(72)** |
| **Balans CRT a gariwyd trosodd** | **943** |

| Cynllun Cyfalaf Tai<br>Mawrth 2012 | £,000 |
|---|---|
| Gwariant a Gynlluniwyd | 7,019 |
| **Ariannwyd gan:** | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 2,400 |
| Cyfraniad Refeniw | 331 |
| Benthyca Darbodus | 4,288 |
| **Cyfanswm** | **7,019** |

## 7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y Cabinet a'i chytuno'n ffurfiol gan y Cyngor ar ôl cyfres o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y Cyngor ar ôl gwaith craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y Cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn y tenantiaid.

**8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Cyflawnwyd neu newidiwyd yr arbedion a gytunwyd ar gyfer 2012/13, gydag un eitem wedi ei gohirio i'r flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n dal i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw wargedion canol blwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig. Mae amseru ailstrwythuro gwasanaethau ac oedi gyda chamau gweithredu eraill ynghyd â'r dyfarniad o arian grant ychwanegol yn hwyr yn y flwyddyn wedi cyfrannu at y gwarged yn ystod y flwyddyn yr adroddwyd amdano.

**Sylwadau Economaidd a'r Diweddaraf am Reoli Trysorlys**

Mae'r marchnadoedd ariannol yn dal yn weddol gyfnewidiol ac mae hyn yn dal i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda nhw ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cyflawni. Mae'r strategaeth hon ar gyfer gwneud buddsoddiadau tymor byr yn parhau am y tymor canolig. Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd cyfanswm y benthyciadau'n dal yn £133.27m ar gyfradd gyfartalog o 5.77% ac roedd cyfanswm y buddsoddiadau'n £11m ar gyfradd gyfartalog o 0.77%.

**9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu cyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi pwysau pellach ar y gwasanaethau yn y flwyddyn ariannol hon ac i'r dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu sicrhau cyflawni'r strategaeth ariannol.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ddelio â phrosiectau cyfalaf a gall gynnwys gwariant neu redeg dros amser, problemau ariannu ac ystyriaeth anariannol eraill. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn a gwaith monitro ac adrodd ariannol manwl, ynghyd â threfniadau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu lleihau'r risgiau hyn.

Mae'r CRT yn ymgymryd â buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r stoc dai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae gwaith monitro rheolaidd a chymeradwyo ac asesiad hyfywedd blynyddol y Cynllun Busnes Stoc Tai yn sicrhau bod hyn yn wir.

## 10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae gofyn i awdurdodau lleol, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

## DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2012/13

| Forecast as at 31/03/2013 | Budget Expenditure | Budget Income | Budget Net | Projected Outturn Expenditure | Projected Outturn Income | Projected Outturn Net | Variance Expenditure | Variance Income | Variance Net | Variance Net | Committed 2013/14 (Appendix 2) | Available Underspend |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 |
| Business Planning & Performance | 1,607 | -237 | 1,370 | 1,706 | -398 | 1,308 | 99 | -161 | -62 | -4.53% | 61 | -1 |
| Legal & Democratic Services | 2,066 | -553 | 1,513 | 2,137 | -624 | 1,513 | 71 | -71 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Finance & Assets | 14,252 | -7,194 | 7,058 | 15,013 | -7,972 | 7,041 | 761 | -778 | -17 | -0.24% | 0 | -17 |
| Highways & Environmental Services | 38,098 | -17,205 | 20,893 | 38,234 | -17,604 | 20,630 | 136 | -399 | -263 | -1.26% | 207 | -56 |
| Planning & Regulatory Services | 4,321 | -1,700 | 2,621 | 4,407 | -1,786 | 2,621 | 86 | -86 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Adult & Business Services | 46,112 | -14,247 | 31,865 | 46,917 | -15,052 | 31,865 | 805 | -805 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Children & Family Services | 9,979 | -1,066 | 8,913 | 10,183 | -1,408 | 8,775 | 204 | -342 | -138 | -1.55% | 103 | -35 |
| Housing & Community Development | 3,587 | -1,484 | 2,103 | 4,727 | -2,583 | 2,144 | 1,140 | -1,099 | 41 | 1.95% | 0 | 0 |
| Communication, Marketing & Leisure | 10,590 | -5,366 | 5,224 | 11,172 | -5,975 | 5,197 | 582 | -609 | -27 | -0.52% | 25 | -2 |
| Strategic HR | 1,277 | -376 | 901 | 1,662 | -761 | 901 | 385 | -385 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| ICT/Business Transformation | 2,695 | -760 | 1,935 | 2,494 | -654 | 1,840 | -201 | 106 | -95 | -4.91% | 95 | 0 |
| Customers & Education Support | 2,488 | -505 | 1,983 | 2,266 | -515 | 1,751 | -222 | -10 | -232 | -11.70% | 232 | 0 |
| School Improvement & Inclusion | 11,817 | -7,373 | 4,444 | 12,277 | -7,959 | 4,318 | 460 | -586 | -126 | -2.84% | 126 | 0 |
| **Total Services** | **148,889** | **-58,066** | **90,823** | **153,195** | **-63,291** | **89,904** | **4,306** | **-5,225** | **-919** | -1.01% | **849** | **-111** |
| | | | | | | | | | | | | |
| Corporate | 42,576 | -36,579 | 5,997 | 42,501 | -36,579 | 5,922 | -75 | 0 | -75 | -1.25% | 0 | 0 |
| Transfer to Reserves | 1,700 | 0 | 1,700 | 1,700 | 0 | 1,700 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Precepts & Levies | 4,569 | 0 | 4,569 | 4,569 | 0 | 4,569 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| Capital Financing | 12,656 | 0 | 12,656 | 12,656 | 0 | 12,656 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 |
| **Total Corporate** | **61,501** | **-36,579** | **24,922** | **61,426** | **-36,579** | **24,847** | **-75** | **0** | **-75** | -0.30% | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Council Services & Corporate Budget** | **210,390** | **-94,645** | **115,745** | **214,621** | **-99,870** | **114,751** | **4,231** | **-5,225** | **-994** | -0.86% | **0** | **-111** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Schools & Non-delegated School Budgets** | **69,224** | **-7,581** | **61,643** | **68,754** | **-7,581** | **61,173** | **-470** | **0** | **-470** | **-0.76%** | **0** | **-467** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Total Council Budget** | **279,614** | **-102,226** | **177,388** | **283,375** | **-107,451** | **175,924** | **3,761** | **-5,225** | **-1,464** | -0.83% | **0** | **-578** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Housing Revenue Account** | **11,841** | **-11,912** | **-71** | **11,885** | **-11,957** | **-72** | **44** | **-45** | **-1** | | **0** | **0** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Appendix 2 Summary of Service Commitments & Proposals (Carry-forward balances)

**Use of Underspends Requested**

| Report Date | Service | Detail | Carry Forward Method | £ |
|---|---|---|---|---|
| | **Service Commitments (Timing Issues)** | | | |
| Feb | Highways & Envt Grounds Maintenance | Delayed fleet procurement | General Service Underspend | 40,000 |
| Feb | Highways & Envt Street Cleansing | Delayed fleet procurement | General Service Underspend | 58,000 |
| Feb/Mar | Highways & Envt WG Regional Transport Su | WG initiative to fund services in 13/14 (£46k in Feb report) | General Service Underspend | 34,000 |
| Mar | Highways & Envt Marine Budget | Delay in procurement related to Foryd Harbour Development - underspend on specific £30k budget | General Service Underspend | 25,000 |
| Feb | Customer & Education Support | Installation of the automatic payment point delayed | General Service Underspend | 25,000 |
| Feb | Communications, Marketing & Leisure | Delayed restructuring of marketing function | General Service Underspend | 25,000 |
| Mar | Chidrens Services | Delayed placement of 4 children for adoption | General Service Underspend | 83,000 |
| Mar | Chidrens Services | Delay in marketing campaign for fostering recruitment | General Service Underspend | 20,000 |
| | | **Total Commitments** | | **310,000** |
| | **Service Proposals** | | | |
| Feb | Business Planning and Performance | Reduced projections for purchase of Mapping Software | General Service Underspend | 61,000 |
| Mar | Highways & Envt | Various in-year underspends to facilitate transfer of coastal facilities | General Service Underspend | 50,000 |
| Jan | School Imorovement & Inclusion | Contribute to the protection required for schools affected by the formula review | General Service Underspend | 126,000 |
| Jan/Feb | Customer & Education Support | Service Restructuring costs in 2013/14 | General Service Underspend | 207,000 |
| Mar | Business Transformation & ICT | Funds sets aside for IBM Lotus audit - identified to fund Phase 2 of the ICT Strategy | General Service Underspend | 95,000 |
| | | **Total Proposals** | | **539,000** |
| | | **Total Commitments & Proposals** | | **849,000** |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Denbighshire County Council - Capital Plan 2012/13 - 2015/16

**APPENDIX 3**

## Position to March 2013

| General Capital Plan | | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000s | £000s | £000s | £000s |
| Capital Expenditure | | | | | |
| | Total Estimated Payments | 31,125 | 39,327 | 2,022 | 399 |
| | Contingency | 94 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| | Total | 31,219 | 40,327 | 3,022 | 1,399 |
| Capital Financing | | | | | |
| 1 External Funding | Unhypothecated Supported Borrowing | 2,607 | 8,890 | 2,944 | 2,864 |
| | General Capital Grant | 3,251 | 1,844 | 1,841 | 1,841 |
| | General Capital Receipts | 728 | 1,470 | | |
| | Earmarked Capital Receipts | 98 | 77 | 0 | 0 |
| | Total General Funding | 6,684 | 12,281 | 4,785 | 4,705 |
| 2 Prudential Borrowing | | 5,627 | 10,813 | 607 | 265 |
| 3 Reserves and Expenditure Funded by Revenue | | 2,146 | 2,679 | 0 | 0 |
| 4 Specific Grants and Contributions | | 16,762 | 14,554 | 1,345 | 0 |
| 5 Unallocated Funding | | 0 | 0 | -3,715 | -3,571 |
| | Total Capital Financing | 31,219 | 40,327 | 3,022 | 1,399 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Appendix 4 Major Capital Projects Update

### Rhyl Harbour Development

| | |
|---|---|
| Total Budget | £10.116m |
| Expenditure to date | £ 6.203m |
| Estimated remaining spend in 2012/13 | £ 0.750m |
| Future Years estimated spend | £ 3.163m |
| Funding | WG £2.950m; WEFO £5.766m; Sustrans £0.700m: RWE £155k and DCC £0.545m |
| *Comments* | **Rhyl Harbour Cycle & Pedestrian Bridge**<br>Work continues on the discharge of the remaining planning conditions.<br><br>**Quayside Units, Public Square & Extended Quay Wall**<br>Tenders for the harbour building have been received and are being evaluated.<br><br>**Costs**<br>The projected expenditure is currently £20k under the available budget, and to date none of the Council's £0.5m capital contingency has been used.<br><br>**Programme**<br>The onsite works related to the construction of the bridge and enabling works contract commenced on 30th July 2012. The bridge is on schedule to complete by the end of June 2013.<br><br>The first bridge deck has arrived on site, and the second deck is due to arrive early May.<br><br>A temporary Harbour Masters office together with a visitor centre is now located at Rhyl Harbour, and will remain for the duration of the works.<br><br>The finishes to the square and the building will be subject to subsequent works contracts; these are still scheduled to complete in December 2013.<br><br>**Publicity & Marketing**<br>A naming competition for the bridge being undertaken with Rhyl and Kinmel Bay primary schools was due to be judged earlier this month.<br>A further site visit will be offered to Members in April/May. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £4.871m |

**Bee and Station**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £1.146m |
| Expenditure to date | £0.875m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.037m |
| Future Years estimated spend | £0.234m |
| Funding | ERDF £0.510m; SRA £0.395m; THI £0.168m; DCC £0.073m |
| Comments | This project involves the renovation of the former Bee & Station hotel, Rhyl to provide business units to rent.<br><br>The works are progressing well and the scheme is on target to complete towards the end of April. The project was recently featured on the Louise Elliott show on BBC Radio Wales. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.867m |

**Rhyl Going Forward**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £10.244m |
| Expenditure to date | £ 4.100m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £ 0.300m |
| Future Years estimated spend | £ 5.844m |
| Funding | WG £10.244m |
| Comments | **Honey Club**<br><br>It is hoped the demolition licence will be signed by all parties shortly. Once agreed, the contractor will be able to mobilise within 7 days.<br>The public enquiry for the CPO in relation to 25/26 West Parade due to be held in February was postponed and will now be held on 12th and 13th June 2013.<br><br>In the meantime, all design and pre-planning application requirements will proceed at the developers' risk.<br>A planning application will be submitted very soon after the Public Inquiry is held.<br><br>The Development Agreement is in its final draft, and it is hoped that both parties will be in a position to sign by the end of April 2013.<br><br>**West Rhyl Housing Improvement Project**<br>A grant award of £10m has been received from the Welsh Government to enable the acquisition/demolition programme to commence. A number of acquisitions have been made to date, and it is hoped to carry out initial demolition works on Gronant Street during May 2013. The grant is available until the end of March 2014. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £4.400m |

**Denbigh High School Gymnasium Activity Studio**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £0.491m |
| Expenditure to date | £0.327m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.027m |
| Future Years estimated spend | £0.137m |
| Funding | DCC £0.341m; Prudential Borrowing £0.150m |
| Comments | This project involves the replacement of the existing gymnasium structure with a new gymnastic dance activity studio.<br><br>The new facility will continue to be used by Denbigh High School and Denbigh Leisure Centre to deliver its community sports and school curriculum programme.<br><br>Work is progressing well, but unfortunately the construction has a two week delay due to adverse weather conditions. The completion and handover of the new activity studio is scheduled to be completed by mid April 2013. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.299m |

**Ruthin Leisure Centre Development**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £1.416m |
| Expenditure to date | £0.004m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £Nil |
| Future Years estimated spend | £1.412m |
| Funding | Prudential Borrowing £1.416m |
| Comments | Contractors have mobilised on site, but unfortunately the adverse weather has hampered efforts. However, it is hoped that construction will commence during mid April, with completion of the all weather pitch anticipated by July 2013, and the extension by September 2013. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.004m |

**Prestatyn Library Re-location**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £0.845m |
| Expenditure to date | £0.361m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.039m |
| Future Years estimated spend | £0.445m |
| Funding | DCC £0.545m; Cymal £0.300m |
| Comments | Council have approved the re-location of the library to 21 Kings Avenue. Both tenants in the business units have accepted a permanent solution to their relocation and officers are currently facilitating their move. |

| | |
|---|---|
| | The tenant relocation process has resulted in a delay to the construction stage. However, it is hoped that the project will be complete towards the end of August, allowing for an opening of the new library in late September. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.400m |

**Welsh Medium Area School – Ysgol Maes Hyfryd Site**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £1.300m |
| Expenditure to date | £0.060m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.040m |
| Future Years estimated spend | £1.200m |
| Funding | WG £1.2m; DCC £0.1m |
| Comments | Ysgol Bro Dyfrdwy opened as a new school replacing Ysgol Llandrillo and Ysgol Maes Hyfryd on the 1st January 2013, and will initially operate on the two sites.<br><br>The Welsh Government has recently announced £1.2m funding as part of the wider 21st Century Schools Programme. This will enable the new school to move to a single site following a significant extension and refurbishment to the current Ysgol Maes Hyfryd site.<br><br>Planning permission has now been received and design work for the project is progressing with work planned to start on site this Summer. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.100m |

**North Denbighshire Welsh Medium Provision**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £4.878m |
| Expenditure to date | £0.536m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.054m |
| Future Years estimated spend | £4.288m |
| Funding | WG £3.061m, DCC £1.817m |
| Comments | The Welsh Government has provided funding as part of the transitional 21st century Schools Programme. This approval will allow for improvement works to be undertaken at three Welsh Medium schools.<br><br>**Ysgol y Llys, Prestatyn**<br>This project will deliver an extended, remodelled and refurbished school for 420 pupils. Work will commence on site during April 2013, and it is anticipated the scheme will be complete by August 2014.<br>**Ysgol Twm o'r Nant, Denbigh**<br>This project will deliver additional school hall accommodation and teaching areas. Tenders are |

| | |
|---|---|
| | currently being evaluated, before a decision can be sought to appoint a contractor.<br>**Ysgol Dewi Sant, Rhyl**<br>This project has delivered improved circulation within the school through the construction of an additional staircase at the rear of the school, additional and refurbished toilets and cloak areas, including the provision of a DDA accessible toilet.<br>Work commenced on site during November 2012, and was successfully completed recently, with the facilities handed over to the school for the start of the Summer term. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £0.590m |

**Highways Programme Works**

| | |
|---|---|
| Total Budget | £3.650m |
| Expenditure to date | £3.300m |
| Estimated remaining spend in 12/13 | £0.350m |
| Future Years estimated spend | £Nil |
| Funding | Prudential Borrowing |
| Comments | An allocation of £3.650m was made to progress highways capital works as part of the 2012/13 Capital Bid process. This year's overall programme has gone well despite the adverse weather, and the full allocation will be spent in 2012/13. A detailed update on the progress of schemes has recently been provided to all Councillors. |
| Forecast In Year Expenditure 12/13 | £3.650m |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag